**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 3 MAWRTH 2020 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Ceri Stradling (Dirprwy Gadeirydd); Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr David Burley (Rheolwr Busnes); Mr Tom Jenkins (Rheolwr Arolygon); Mr Huw Blacker (Swyddog Arolygon); Mr Nathan Sweetman (Swyddog Cymorth Busnes); Miss Hannah Toor (Swyddog Cymorth Busnes)

**Amser dechrau:** 11:20
**Amser gorffen:** 15:10

**Ymddiheuriadau:** Mrs Debra Williams (Cadeirydd)

## 1. Datganiadau o Fuddiant

Datganodd Ceri Stradling fuddiant hyd braich yn Ynys Môn fel perchennog eiddo.

## 2. Brîff y Cadeirydd

2.1. Nid oedd y Cadeirydd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod, a rhoddodd y Prif Weithredwr adroddiad ar y cyfarfod diwethaf â Llywodraeth Cymru.

2.2. Disgwylir i'r Bil Etholiadau Llywodraeth Leol 2020 gael Cydsyniad Brenhinol ddiwedd y flwyddyn hon, os bydd holl gamau'r Bil yn pasio.

2.3. Rhoddodd y Comisiwn ddiweddariad i LlC ar yr amryw gyfarfodydd a gynhaliwyd ag Arweinwyr Grŵp yng Nghyngor Wrecsam, Cyngor Caerdydd, yn ogystal â'r cyfarfodydd â rhanddeiliaid yn Sir Fynwy.

2.4. Codwyd llythyr cylch gwaith 2020/21 gan LlC, a rhoddwyd gwybod i'r Comisiwn ei fod yn cael ei ddrafftio a, chyn iddo gael ei lofnodi gan y Gweinidog, y byddai'n cael ei rannu â'r Comisiwn.

2.5. Rhoddwyd gwybod i LlC bod y Comisiwn wrthi'n ceisio cyngor cyfreithiol annibynnol ar symud ymlaen ag arolwg etholiadol Sir Fynwy cyn cyhoeddi'r Gorchymyn disgwyliedig.

2.6. Rhoddodd LlC wybod i'r Comisiwn y byddai angen cynnal trafodaeth yn nes ymlaen y flwyddyn hon mewn perthynas â'r adran 'Penodi'r Prif Weithredwr' yn y Bil (Etholiadau) Llywodraeth Leol.

## 3. Cofnodion y Comisiwn a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2020

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir o’r materion a ystyriwyd, yn amodol ar rai mân newidiadau.

## 4. Materion yn codi

4.1. Diweddariad ar yr arolwg staff – erbyn hyn, rydym hanner ffordd drwy gyfnod yr arolwg staff a derbyniwyd nifer o ymatebion.

4.2. Cynhelir cyfarfod CLILC ar 10 Mawrth 2020.

4.3. Bydd MapInfo yn cael ei ddisodli ar gyfer y Comisiwn Ffiniau i Gymru. **Gweithredu –** Bydd Julie yn anfon nodiadau gweithredu ei ‘diwrnod cwrdd i ffwrdd’ at Shereen.

4.4. Mae Shereen wedi siarad â Swyddfa’r Cabinet ar gyfer cyfarfod i’w gynnal yn cynnwys CFfDLC a’r Comisiwn Ffiniau i Gymru. Cadarnhaodd Shereen y bydd adroddiadau’r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn cael eu mabwysiadu yn y dyfodol heb fynd i’r Senedd. Mae rhaglen etholiadol newydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn debygol o ddechrau ym mis Ionawr 2021, ac ni ddylai hyn rwystro rhaglen CFfDLC rhag cael ei chwblhau.

4.5. Bydd holiaduron ôl-arolwg yn cael eu hanfon maes o law mewn perthynas â’r arolygon etholiadol a gwblhawyd.

## 5. Arolwg Etholiadol Sir y Fflint – Opsiynau Terfynol

5.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 13 Chwefror 2020 gan y Swyddog Arolygon.

5.2. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 1, sef Bwcle Dwyrain Bistre, Bwcle Gorllewin Bistre, Mynydd Bwcle a Bwcle Pentrobin, a **chytunodd ar opsiwn 2**. Mae’r opsiwn hwn yn cynnwys pedair ward etholiadol, sef Bwcle Dwyrain Bistre, Bwcle Gorllewin Bistre, Mynydd Bwcle a Bwcle Pentrobin ac mae’n mabwysiadu’r newidiadau i’r ffiniau a awgrymwyd gan Gyngor Tref Bwcle.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n cadw un o'r wardiau etholiadol presennol.
- Mae'n cynnig gwelliannau o ran cydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.
- Mae'n osgoi creu ward â thri aelod.
- Mae'n cynnwys un aelod yn fwy na'r cynigion drafft.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 7 o aelodau, yn unol â'r aelodaeth bresennol.**

5.3. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a argymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Buckley Bistre East | Dwyrain Bwcle Bistre |
| Buckley Bistre West | Gorllewin Bwcle Bistre |
| Buckley Mountain | Mynydd Bwcle |
| Buckley Pentrobin | Pentrobin Bwcle |

5.4. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 2, sef Castell y Fflint, Cwnsyllt y Fflint, Oakenholt y Fflint a Threlawny y Fflint, a **chytunodd ar opsiwn 3**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys tair ward etholiadol, sef Castell y Fflint, Cwnsyllt a Threlawny y Fflint, ac Oakenholt y Fflint.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n cynnig gwelliannau o ran cydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 5 o aelodau, sef un yn llai na'r cynigion drafft.**

5.5 Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a argymhellir isod

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Flint Castle | Castell Y Fflint |

| | |
|---|---|
| Flint Coleshill and Trelawny | Cwnsyllt a Threlawny Y Fflint |
| Flint Oakenholt | Oakenholt Y Fflint |

5.6. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 3, sef Canol Cei Connah, Cei Connah Golftyn, De Cei Connah a Chei Connah Gwepra, a **chytunodd ar opsiwn 1**, sef y cynnig drafft. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pedair ward etholiadol, sef Canol Cei Connah, Cei Connah Golftyn, De Cei Connah a Chei Connah Gwepra.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n cadw un o'r wardiau etholiadol presennol.
- Mae'n cynnig gwelliannau sylweddol o ran cydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.
- Caiff ei gefnogi gan y sylwadau a dderbyniwyd.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 7 o aelodau, yn unol â'r aelodaeth bresennol.**

5.7. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a gynigir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Connah's Quay Central | Canol Cei Connah |
| Connah's Quay Golftyn | Cei Connah Golftyn |
| Connah's Quay South | De Cei Connah |
| Connah's Quay Wepre | Cei Connah Gwepra |

5.8. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 4, sef Broncoed yr Wyddgrug, Dwyrain yr Wyddgrug, De'r Wyddgrug a Gorllewin yr Wyddgrug, **a chytunodd ar opsiwn 1 y cynigion drafft**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pedair ward etholiadol, sef Broncoed yr Wyddgrug, Dwyrain yr Wyddgrug, De'r Wyddgrug a Gorllewin yr Wyddgrug.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n cynnig gwelliannau o ran cydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.
- Caiff ei gefnogi gan y sylwadau a dderbyniwyd.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 4 o aelodau, yn unol â'r aelodaeth bresennol.**

5.9. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a gynigir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Mold Broncoed | Yr Wyddgrug Broncoed |
| Mold East | Dwyrain Yr Wyddgrug |
| Mold South | De'r Wyddgrug |
| Mold West | Gorllewin Yr Wyddgrug |

5.10. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 5, sef Ffynnongroyw, Gronant, Mostyn, Trelawnyd a Gwaenysgor, a Chwitffordd, **a chytunodd ar opsiwn 1 y cynigion drafft**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys tair ward etholiadol, sef Llanasa a Threlawnyd, Mostyn, a Chwitffordd.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n cadw dwy o'r wardiau etholiadol presennol.
- Mae'n cynnig gwelliannau sylweddol o ran cydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 4 o aelodau, sef un yn llai na'r aelodaeth bresennol.**

5.11. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a gynigir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Llanasa and Trelawnyd | Llanasa a Trelawnyd |
| Mostyn | Mostyn |
| Whitford | Chwitffordd |

5.12. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 6, sef Dwyrain Bagillt, Gorllewin Bagillt, Maesglas, Canol Treffynnon, Dwyrain Treffynnon a Gorllewin Treffynnon, a **chytunodd ar opsiwn 2**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pum ward etholiadol, sef Bagillt, Maesglas, Canol Treffynnon, Dwyrain Treffynnon a Gorllewin Treffynnon.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n cadw pedair o'r wardiau etholiadol presennol.
- Caiff ei gynnig gan y Cyngor Sir.
- Mae'n cynnig rhai gwelliannau o ran cydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 6 o aelodau, yn unol â'r aelodaeth bresennol.**

5.13. Nid oedd yr opsiwn hwn yn cael ei gefnogi gan yr holl gynrychiolaethau; fodd bynnag, byddai'r trefniant amgen a gynigiwyd yn cynnwys newid i ffin allanol cymuned, a pholisi'r Comisiwn yn ystod y rhaglen hon o arolygu fu i beidio â chynnig newidiadau i ffiniau allanol cymunedol yn ystod y cam argymhellion terfynol lle mae Cynghorau Cymuned yn bodoli, oherwydd yr analllu i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus pellach a lle gallai fod newidiadau i'r praesept.

5.14. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a gynigir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Bagillt | Bagillt |
| Greenfield | Maes Glas |
| Holywell Central | Canol Treffynnon |
| Holywell East | Dwyrain Treffynnon |

| | |
|---|---|
| Holywell West | Gorllewin Treffynnon |

5.15. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 7, sef Brynffordd, Caerwys, Cilcain, Gwernaffield, Gwernymynydd a Helygain, a **chytunodd ar opsiwn 1 y cynigion drafft**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pedair ward etholiadol, sef Brynffordd a Helygain, Caerwys, Cilcain, a Gwernaffield a Gwernymynydd.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n cadw dwy o'r wardiau etholiadol presennol.
- Mae'n cynnig gwelliannau o ran cydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.
- Caiff ei gefnogi gan fwyafrif y cynrychiolaethau a dderbyniwyd.

5.16. Fel rhan o'r ystyriaethau, ailedrychodd y Comisiwn ar Opsiwn 3 (y trefniadau presennol), fel y'i cyflwynwyd gan y Grŵp Llafur; fodd bynnag, teimlwyd bod yr amrywiannau mewn rhai o'r wardiau yn rhy uchel, ac y byddant yn uwch fyth erbyn 2023.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 6 o aelodau, yn unol â'r aelodaeth bresennol.**

5.17. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a gynigir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Brynford and Halkyn | Brynffordd a Helygain |
| Caerwys | Caerwys |
| Cilcain | Cilcain |
| Gwernaffield and Gwernymynydd | Gwernaffield a Gwernymynydd |

5.18. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 8, sef Argoed, New Brighton, Llaneurgain a Northop Hall, a **chytunodd ar opsiwn 1 y cynigion drafft**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys dwy ward etholiadol, sef Argoed a New Brighton, a Llaneurgain.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n cynnig gwelliannau o ran cydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 4 o aelodau, yn unol â'r aelodaeth bresennol.**

5.19. Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw Llaneurgain, yn sgil y cynrychiolaethau a dderbyniwyd. Felly, mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a gynigir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Argoed and New Brighton | Argoed a New Brighton |
| Northop | Llaneurgain |

5.20. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 9, sef Dwyrain Shotton, Gorllewin Shotton ac Uwch Shotton, a **chytunodd ar opsiwn 1 y cynigion drafft**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys dwy ward etholiadol, sef Dwyrain ac Uwch Shotton, a Gorllewin Shotton.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n cadw un o'r wardiau etholiadol presennol.
- Mae'n cynnig gwelliannau o ran cydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.
- Caiff ei gefnogi gan y cynrychiolaethau a dderbyniwyd.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 3 o aelodau, yn unol â'r aelodaeth bresennol.**

5.21. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a gynigir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Shotton East and Higher | Dwyrain ac Uwch Shotton |

| | |
|---|---|
| Shotton West | Gorllewin Shotton |

5.22. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 10, sef Aston, Penarlâg, Mancot, Queensferry a Sealand, a **chytunodd ar opsiwn 2**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys tair ward etholiadol, sef Penarlâg Mancot, Penarlâg Aston, a Sealand a Queensferry.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n cynnig gwelliannau o ran cydraddoldeb etholiadol.
- Mae'n cydymffurfio â'r cynnig a gyflwynwyd gan y Cyngor Sir.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.
- Mae'n cynnig un aelod yn fwy na'r cynigion drafft.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 6 o aelodau, sef un aelod yn llai na'r aelodaeth bresennol.**

5.23. Mae'r Comisiwn wedi ailystyried y cynnig a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol a'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd ar ôl y cynigion drafft, ac mae wedi cytuno mai Opsiwn 2 sy'n cynnig y trefniant gorau ar gyfer yr ardal.

5.24. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a gynigir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Hawarden Mancot | Penarlâg Mancot |
| Hawarden Aston | Penarlâg Aston |
| Sealand and Queensferry | Sealand a Queensferry |

5.25. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 11, sef Caergwrle, Kinnerton Uchaf, Yr Hôb, Coed-llai, Llanfynydd, Pen-y-ffordd a Threuddyn, a **chytunodd ar opsiwn 2**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pedair ward etholiadol, sef Kinnerton Uchaf a'r Hôb, Caergwrle, Llanfynydd a Threuddyn, Coed-llai, a Phen-y-ffordd.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n cadw dwy o'r wardiau etholiadol presennol.
- Mae'n cynnig gwelliannau o ran cydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.
- Mae'n cynnwys yr un nifer o aelodau â'r cynigion drafft.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 7 o aelodau, sef un yn llai na'r aelodaeth bresennol.**

5.26. Cydnabu'r Comisiwn lefel uchel y cynrychiolaethau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac, yn yr opsiwn hwn, mae wedi cadw Cymuned Llanfynydd yn ei chyfanrwydd mewn un ward etholiadol. Cydnabu'r Comisiwn fod yr opsiwn hwn yn credu ward aml-aelod arall mewn ardal wledig; fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn teimlo mai'r argymhelliad hwn yn bodloni'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd orau o ran rhannu ward Llanfynydd ar draws tair ward etholiadol gwahanol.

5.27. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a gynigir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Higher Kinnerton and Hope | Kinnerton Uchaf a'r Hôb |
| Caergwrle, Llanfynydd and Treuddyn | Caergwrle, Llanfynydd a Treuddyn |
| Leeswood | Coed-llai |
| Penyffordd | Penyffordd |

5.28. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 12, sef Saltney Cyffordd yr Wyddgrug a Saltney Stonebridge, a chytunodd ar opsiwn 1 yn y cynigion drafft. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys un ward etholiadol, sef Saltney Ferry.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n cynnig gwelliannau o ran cydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 2 o aelodau, yn unol â'r aelodaeth bresennol.**

5.29. Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw Saltney Ferry, yng ngoleuni'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd.

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Saltney Ferry | Saltney Ferry |

**Mae argymhellion terfynol y Comisiwn yn darparu Cyngor â 66 o aelodau, sef un yn fwy na'r cynigion drafft.**

## 6. Arolwg Etholiadol Ynys Môn – Opsiynau Drafft

6.6. Ystyriwyd yr Adroddiad, dyddiedig 25 Chwefror 2020, gan y Swyddog Arolygon.

6.7. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y ward etholiadol bresennol yn Rhanbarth 1, sef Aethwy, a **chytunodd ar opsiwn 1**. Mae'r opsiwn hwn yn cadw ward etholiadol Aethwy.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n cadw'r ward etholiadol bresennol.
- Mae'n cydymffurfio â chynllun y Cyngor.
- Mae'n cadw lefelau priodol o gydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 3 o aelodau, yn unol â'r aelodaeth bresennol.**

6.8. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a gynigir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Aethwy | Aethwy |

6.9. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y ward etholiadol bresennol yn Rhanbarth 2, sef Bro Aberffraw, a **chytunodd ar opsiwn 1**. Mae'r opsiwn hwn yn cadw ward etholiadol bresennol Bro Aberffraw.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n cadw'r ward etholiadol bresennol.
- Mae'n cydymffurfio â chynllun y Cyngor.
- Mae'n cynnal lefelau priodol o gydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 2 o aelodau, yn unol â'r aelodaeth bresennol.**

6.10. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a gynigir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Bro Aberffraw | Bro Aberffraw |

6.11. Ystyriodd y comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 3, sef Caergybi ac Ynys Gybi, a **chytunodd ar opsiwn 1**. Mae'r opsiwn hwn yn credu dwy ward newydd â dau aelod, sef Parc a'r Mynydd, a Thref Cybi. Cynigir i ward etholiadol Ynys Gybi gadw ei threfniadau presennol.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n osgoi ward â phedwar aelod.
- Mae'n cadw un o'r wardiau etholiadol presennol.
- Mae'n cydymffurfio â chynllun y Cyngor.
- Mae'n darparu gwelliannau cymedrol o ran cydraddoldeb etholiadol.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 7 o aelodau, sef un yn fwy na'r aelodaeth bresennol.**

6.12. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a gynigir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Parc a'r Mynydd | Parc a'r Mynydd |
| Tref Cybi | Tref Cybi |
| Ynys Gybi | Ynys Gybi |

6.13. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 4, sef Talybolion a Thwrcelyn, a **chytunodd ar opsiwn 1**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys tair ward etholiadol, sef Bro'r Llynnoedd, Talybolion a Thwrcelyn.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n cadw dwy o'r wardiau etholiadol presennol.
- Mae'n cydymffurfio â chynllun y Cyngor.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau hollt.

**Mae'r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 8 o aelodau, sef dau yn fwy na'r aelodaeth bresennol.**

6.14. Mae'r Comisiwn yn argymell mabwysiadu'r enwau a gynigir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Bro'r Llynnoedd | Bro'r Llynnoedd |
| Talybolion | Talybolion |
| Twrcelyn | Twrcelyn |

6.15. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol presennol yn Rhanbarth 5, sef Bro Rhosyr, Canolbarth Môn, Llifon a Lligwy, a **chytunodd ar opsiwn 1**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pum ward etholiadol, sef Braint, Cefni, Canolbarth Môn, Crigyll a Lligwy.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae’n cadw un o’r wardiau etholiadol.
- Mae’n cydymffurfio â chynllun y Cyngor.
- Mae’n darparu amrywiannau etholiadau gwell yn gyffredinol.

**Mae’r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 12 o aelodau, sef dau yn fwy na’r aelodaeth bresennol.**

6.16. Mae’r Comisiwn yn argymell mabwysiadu’r enwau a gynigir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Braint | Braint |
| Cefni | Cefni |
| Canolbarth Môn | Canolbarth Môn |
| Crigyll | Crigyll |
| Lligwy | Lligwy |

6.12 Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer ward etholiadol bresennol Seiriol, a **chytunodd ar opsiwn 1**, sef cadw’r ward bresennol.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae’n cadw’r ward bresennol.
- Mae’n cydymffurfio â chynllun y Cyngor.
- Nid yw’n creu unrhyw gymunedau hollt.

Mae’r opsiwn hwn yn ethol cyfanswm o 3 aelod, yn unol â’r aelodaeth bresennol.

6.13 Mae’r Comisiwn yn argymell mabwysiadu’r enwau a gynigir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Seiriol | Seiriol |

**Felly, mae’r Comisiwn yn cynnig Cyngor â 35 o aelodau, sef 5 yn fwy na’r aelodaeth bresennol.**

## 7. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

7.6. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig 25 Chwefror 2020, gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

7.7. Cyhoeddwyd Adroddiad Drafft Bro Morgannwg ar 13 Chwefror 2020. Cyhoeddwyd Adroddiad Terfynol Abertawe ar 3 Mawrth 2020. Bydd Adroddiad Terfynol Rhondda Cynon Taf yn cael ei gyhoeddi ar 25 Mawrth 2020.

7.8. Y meysydd yr edrychir arnynt yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn fydd Arolwg Etholiadol Castell-nedd Port Talbot (Opsiynau Terfynol), Arolwg Etholiadol Sir y Fflint (Adroddiad Terfynol) ac Ynys Môn (Adroddiad Drafft).

7.9. Ar ôl y llythyr diweddar gan Un Llais Cymru i Brif Weithredwr Sir Fynwy yn ymwneud â'r arolwg o'r Cynghorau Cymuned a gynhaliwyd gan y Cyngor, **cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cynnal ymgynghoriad am gyfnod o dair wythnos mewn perthynas â defnyddio'r ffiniau newydd a ragnodir yn y Gorchymyn Cymunedol at ddibenion Arolwg Etholiadol Sir Fynwy. Yna, bydd y Comisiwn yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyn dechrau'r Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol ar gyfer Arolwg Etholiadol Sir Fynwy. Mae hyn yn unol â'r cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd gan y Comisiwn. **Gweithredu:** Y Prif Weithredwr i gysylltu â Paul Matthews (Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Sir Fynwy) ynghylch yr amserlenni priodol a threfnu i anfon y ddogfen ymgynghori.

## 8. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

8.1 Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig 21 Chwefror 2020, gan y Rheolwr Cyllid. Nodwyd bod y newidiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf wedi'u rhoi ar waith.

8.2 **Cytunwyd** y dylid trosglwyddo Risg CR2, yn ymwneud â gallu annigonol i gyflawni'r rhaglen arolygon, i'r Gofrestr Risg Gweithredol, gan ei bod islaw parodrwydd y Comisiwn i dderbyn risg.

8.3 **Cytunwyd** y dylid tynnu'r cam gweithredu lliniarol yn ymwneud â'r sefyllfa â gorchymyn arolwg cymunedol Sir Fynwy o Risg CR3, yn ymwneud ag enw da'r Comisiwn â rhanddeiliaid, gan yr eir i'r afael â hyn yn Risg CR6.

8.4 **Cytunwyd** y dylid tynnu'r cam gweithredu lliniarol yn ymwneud â'r sefyllfa â gorchymyn arolwg cymuned Sir Fynwy o Risg CR4, yn ymwneud â chwblhau'r rhaglen arolygon erbyn 2021.

8.5 **Cytunwyd** y dylid ychwanegu colofn newydd at y Gofrestr Risg i ddangos p'un a yw'r risg yn cael ei goddef neu ei thrin. Ystyriwyd y dylid bod modd ymdrin â phob risg sy'n dod i'r amlwg.

## 9. Adroddiad ar y Gyllideb

9.1. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig Chwefror 2020, gan y Rheolwr Cyllid. **Nodwyd** y sefyllfa gyfredol â'r gyllideb.

9.2 Nodwyd y cymeradwywyd y cynnig i drosglwyddo cyllid rhwng categorïau'r gyllideb i gwmpasu cost y plotydd a'r gronfa ddata newydd, ynghyd â mân orwariant amcangyfrifedig arall.

9.3 O ran y tanwariant amcangyfrifedig ar ddiwedd y flwyddyn, rhoddodd y Rheolwr Busnes ddiweddariad ar y sefyllfa bresennol o gaffael y plotydd a'r cronfeydd data newydd. Disgwylir i'r ymarferion caffael hyn gael eu cwblhau cyn diwedd y flwyddyn.

## 10. Polisïau Adnoddau Dynol

10.6. Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig 19 Chwefror 2020, gan y Rheolwr Busnes.

10.7. Gwnaed newidiadau i adlewyrchu'r swyddi yn CFfDLC fel rhai gwleidyddol sensitif. Cadarnhawyd bod y rolau ar gyfer Swyddogion Cymorth Busnes wedi'u heithrio o'r amod hwn.

10.8. **Gweithredu –** Caiff y disgrifiad o'r swyddogaeth Adnoddau Dynol ei ddiwygio er mwyn eglurder.

10.9. Cadarnhawyd nad oes unrhyw newidiadau i'r polisi ymddeol.

10.10. **Gweithredu –** Caiff y cytundeb fframwaith ei ddiweddaru (allanol).

## 11. Adroddiad ar yr hyn a ddysgwyd o'r Prosiect Trawsnewid TGCh

11.6. Nodwyd saith argymhelliad sylfaenol yn ymwneud â'r adroddiad i'w hystyried ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.

11.7. **Gweithredu –** Bydd y Rheolwr Busnes yn gwneud mân newidiadau, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

## 12. Cylch Gorchwyl CFfDLC

12.1 Ystyriwyd yr adroddiad, dyddiedig Chwefror 2020, gan y Rheolwr Cyllid. Nodwyd fersiwn gyfredol y Cylch Gorchwyl.

12.2 **Cytunwyd** y dylai rhestr yr eitemau sefydlog ym mharagraff 6.4 gynnwys adolygu polisïau'r Comisiwn, yn unol â'r amserlen adolygu polisïau.

## 13. Calendr Digwyddiadau

13.1 Nodwyd y Calendr Digwyddiadau.

## 14. Unrhyw fater perthnasol arall

**Gweithredu –** Cyfarfod Skype/ar-lein i'w gynnal â Shereen a'r Comisiynwyr.

## 15. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 31 Mawrth 2020